Ar ddydd Mawrth, 17eg Chwefror 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Festri Horeb, Penrhyncoch am 7.00 pm

PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Mrs E Davies; T Lewis; D Sheppard; T Davies; D Jones a'r clerc. Roedd y Cyng. Sir, D Suter yn bresennol hefyd

2432 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. Mrs K Walker (oedd yn mynychu Cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Airtricity yn Nhalybont, fel cynrychiolydd Cyngor Trefeurig); D M Hughes; Mrs G Price; D R Morgan ac M Evans

2433 **Materion Personol:** Dim

2434 **Datgan buddiant personol/rhagfarnol:** Cofnod 2451 Ceisiadau am Grant: Fel aelodau/cyfranogwyr datganodd y Cyng. Mrs Davies a T Davies fuddiant personol yn - Cae Chwarae Penbont: Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig; Grŵp Tai Chi Penbont a Sesiynau 'Extend' Trefeurig. Fel Ymddiriedolwr datganodd y Cyng. T Lewis fuddiant yng nghais Neuadd y Penrhyn ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth. Fel Aelodau o'r Pwyllgor, datganodd Y Cyng. R Owen a T. Lewis fuddiant yn Apêl Steddfod yr Urdd 2010.

2435 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau'r Cofnodion fel cofnod cywir o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2009. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:

Cofnod 2408 Map Cymuned Trefeurig: Cywirwyd y broflen ddrafft gan y Cyng. R Owen a dylai'r map newydd gyrraedd cyn diwedd Mawrth.

Cofnod 2409 Grŵp Cyswllt Cymunedol Airtricity: Cadarnhaodd y Cyng. R Owen ei fod ef a'r Is-gadeirydd yn fodlon gyda geiriad diwygiedig y Cynllun Cyswllt Cymunedol a Chylch Gwaith y Grŵp Cyswllt, a'i fod wedi awdurdodi'r Cyng. Walker i arwyddo'r dogfennau ar ran Cyngor Trefeurig.

Cofnod 2416 Shelter Cymru: Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y man cwrdd ar gyfer mis Chwefror, gohiriwyd y gwahoddiad i Shelter Cymru fynychu'r cyfarfod. Cyflwynwyd adroddiad manwl o'r gwaith a wneir gan Shelter Cymru i'r aelodau gan y Cyng. D Sheppard.

2436 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau fel cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned:**

Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig – Cyfarfod 17eg Chwefror 2009; Adroddodd y Cyng. R. Owen fod cyfarfod GDYT yn gwrthdaro gyda chyfarfod Chwefror y Cyngor Cymuned a'i fod wedi anfon ei ymddiheuriadau.

Cyfarfod Un Llais Cymru yn Aberaeron 20 Ionawr 2009: Mewn adroddiad ysgrifenedig dwedodd y Cyng. K Walker fod y Siaradwr o Swyddfa Archwilio Cymru, wrth drafod materion amrywiol, wedi pwysleisio mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am wirio'r holl drafodion ariannol a wneir gan y clerc ar eu rhan; yr angen i sicrhau bod yna bwerau cyfreithiol y tu cefn i unrhyw wariant a bod y Cofnodion yn gywir a chyfoes.

Pwyllgor Adnewyddu Neuadd y Penrhyn; Mewn adroddiad ysgrifenedig dwedodd y Cyng. K Walker fod yr holiadur i ganfod ymrwymiad y Gymuned i gefnogi Neuadd y Pentref dros y tymor hir wedi'i ddosbarthu Iedled Cymuned Trefeurig. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai Cynghorwyr yn annog trigolion i gwblhau a dychwelyd yr holiadur.

Hyfforddiant Cod Ymddygiad: Mewn adroddiad ysgrifenedig cadarnhaodd y Cyng. K Walker ei bod a'r Cyng. Melvyn Evans wedi mynychu'r Sesiwn Hyfforddiant yn Aberystwyth ar 28ain Ionawr.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol

2437 **Crynodeb o ymateb Cyngor y Dref/Cymuned i gynigion Plaid Werdd Aberystwyth ar gyfer gwella'r gwasanaeth bysys yng Ngheredigion (Amg. B):** Cafodd pob aelod gopi o'r adroddiad. PENDERFYNWYD ei dderbyn.

2438 **Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA):** Cylchlythyr. PENDERFYNWYD ei ddosbarthu.

2439 **Adran Gynllunio Ceredigion:**

1) Hysbysiad bod yr amser a ganiateir i Gynghorau ymateb i Geisiadau Cynllunio i'w gwtogi o 21 diwrnod i 14 diwrnod. PENDERFYNWYD trafod hyn gydag Un Llais Cymru

2) Dogfen ymgynghorol ar y set arfaethedig o ffurflenni cais cynllunio safonedig cenedlaethol (1APP) sydd ar fin cael eu cyflwyno. PENDERFYNWYD eu derbyn.

3) Gwahoddiad i Ymgynghoriad Cyn Adneuo Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol – Ysgol Penweddig 4ydd Mawrth 2009. PENDERFYNWYD enwebu'r y Cyng. M Evans a K Walker i'w fynychu.

2440 **Adran Amgylcheddol Ceredigion - Taflen Gyfarwyddyd ar gyfer perchnogion cŵn:** PENDERFYNWYD cael copïau ychwanegol i'w harddangos pan fyddant ar gael a gofyn ynghylch arwyddion.

2441 **Garddwest Frenhinol:** Gwahoddiad i'r Cadeirydd i roi ei enw yn yr het ar gyfer Garddwest 2009. PENDERFYNODD y Cadeirydd beidio â gwneud hynny.

2442 **Hysbysiad gan Un Llais Cymru ynghylch y Gweithdy Gefeillio UE yn Llandrindod ar 18//3/09.** PENDERFYNWYD ei nodi.

2443 **Copi o Briff y Cyngor Lleol ar gyfer 2009 gan yr Archwilwyr Allanol BDO Stoy Hayward.** PENDERFYNWYD ei dderbyn a'i nodi.

2444 **Adroddiad ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol:** PENDERFYNWYD y bydd y Cyng. Owen yn ei ddarllen ac yn cyflwyno adroddiad.

Am 8.10 pm daeth preswylydd lleol sydd â gwybodaeth arbenigol a diddordeb yn y gwasanaeth Band Eang o fewn Cymuned Trefeurig i'r Cyfarfod. Gohiriwyd cyfarfod y Cyngor a gwahoddwyd Dr King i annerch yr Aelodau.

Gan esbonio'r anawsterau a gafwyd i gael derbyniad Band Eang yn rhannau o'r Gymuned, cynigiodd Dr King fynd ati i geisio sicrhau Grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i alluogi BT i ddiweddaru'r llinellau ffôn presennol. Gallai hynny wella'r gwasanaeth rhyngrwyd i nifer o drigolion. Yn dilyn sesiwn holi ac ateb byr, diolchwyd i Dr King am ei wybodaeth a gadawodd y Cyfarfod am 8.30 pm. PENDERFYNWYD gosod yr eitem hon ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

Cyn i Gyfarfod y Cyngor ailddechrau, soniodd y Cynghorydd Sir D Suter am ei ymdrechion i berswadio Ceredigion i raeanu mwy o ffyrdd gwledig. Roedd yn flin ganddo ddweud na chafodd lawer o lwyddiant o ganlyniad i ddiffyg adnoddau ac arian. Ynghylch y biniau graean, awgrymodd fod y Cyngor yn ail-gyflwyno'i gais am y rhain yng ngoleuni'r anawsterau a gafodd gyrwyr yn ystod y rhew a'r eira'n ddiweddar. Gadawodd y Cyng. Suter am 8.50 pm ac ailddechreuodd Cyfarfod y Cyngor.

Materion Ariannol

2445 **Llywodraeth Cynulliad Cymru – Canllawiau i Gynghorau ar Fenthyca at Ddibenion Cyfalaf:** Trafodwyd y dogfennau. PENDERFYNWYD eu nodi a'u derbyn.

2446 **Refeniw a Thollau EM:** Hysbysiad ynghylch taliad BACS ar 28.01.09 o £611.52 ad-daliad TAW ar gyfer y cyfnod 01/02/08 – 31/01/09

2447 **HSBO – Balans yn y banc ar 17/02/09: £8310. 24**

Gwiriwyd yr anfonebau canlynol a chytunwyd i'w talu:

2448 **L Griffiths –** Costau cyfieithu Ionawr 2009: £90.05. Siec 893

2449 **Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig:** Hurio ystafell ar gyfer cyfarfod Ionawr: £10. Siec 895.

2450 **Eglwys Horeb:** Hurio ystafell ar gyfer Cyfarfod Chwefror: £10. Siec 896.

2451 **Ceisiadau am Grant ar dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009 (Amg. C)**

(Y cyfanswm taladwy dan A137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yw £8,040)

Rhoddwyd rhestr o'r ceisiadau a dderbyniwyd i bob aelod. PENDERFYNWYD ystyried y ceisiadau hynny oedd â mantolen ddiweddar ynghlwm yn unig; peidio â rhoi mwy na'r £3,400 a glustnodwyd ar gyfer rhodd-daliadau o fewn y gyllideb a nodi dan pa bŵer y gwneir y rhodd-daliad. Roedd y ceisiadau canlynol yn llwyddiannus:

Ymgeisydd	Prosiect	Rhodd-daliad	Pŵer
	Rhif y Siec		
Cae Chwarae Penbont	Cronfa ail-osod offer 897	**250**	a.19 DLIL 76

Gr. Datbl.Ysgol Trefeurig Cylchlythyrau 898		**200**	a.137DLIL	
Clwb Tai Chi Penbont Ymarfer ar ffurf loga 899		**150**	a.145 DLIL	
Grŵp 'Extend' Trefeurig Ymarfer ar gyfer bobl hŷn 900		**150**	a.137 DLIL	
Neuadd y Penrhyn	Yswiriant a chostau glanhau	**750**	a.133. DLIL 72	901
Clwb P/D Penrhyncoch	Hyfforddiant ieuenctid	**500**	a.19 DLIL 76	902
PATRASA	Cynnal a chadw'r ffensio/sglefrio	**500**	a.19 DLIL 76	903
Grŵp Ymddeolwyr P/coch	Siaradwyr/hurio stafell	**150**	a.137 DLIL 72	904
Eisteddfod yr Urdd	Apêl Ardal Trefeurig	**200**	a.145 DLIL 72	905
Cartref Tregerddan	Cymorth i'r trigolion	**250**	a.137 DLIL 72	906
Ambiwlans Awyr Cymru	Cynnal y gwasanaeth	**300**	a.137 DLIL 72	907

2452 **<u>Asesiad Risg ac Adolygu Rheolaeth 2008/09</u> (Amg. D)**
Cynhaliwyd asesiad risg yn seiliedig ar y rhestr wirio a awgrymwyd gan yr Archwilwyr Allanol. Roedd hwn yn cynnwys ffactorau risg posib; dulliau presennol o reolaeth fewnol a chynigion ar gyfer gwella dulliau o reoli risg.
Roedd yr asesiad yn cynnwys adolygiad o ddigonolrwydd yr yswiriant presennol, y drefn ar gyfer rheoli cyllid y Cyngor gan gynnwys adolygiadau cyllideb a threfniadau bancio; yr angen i archwilio'r holl drosiannau ariannol i sicrhau eu bod yn gywir a chyfreithiol; i gofnodi ac adhawlio taliadau TAW, ac i nodi'n glir yn y Cofnodion unrhyw benderfyniadau a wneir.
Cadarnhawyd bod y Cyngor yn cadw golwg ar Archebion Sefydlog; bod taliadau a wneir ar gyfer teithio a chyflog ar y raddfa a argymhellir; bod y Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth Enghreifftiol a'r Cod Ymddygiad wedi'u mabwysiadu, a bod cofnod o ddatgan buddiant ar gael. Mae yna drefn Gwyno yn ei lle ac mae'r Cyngor yn cadw at y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
Ar ddiwedd y drafodaeth PENDERFYNWYD parhau i fonitro a gwella trefniadau rheoli risg y Cyngor.

2453 **Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:**
A081122 56 Glanceulan, Penrhyncoch - estyniad a gwelliannau - rhoddwyd caniatâd
A081167 Plas Gogerddan, Penrhyncoch – dileu'r amod cynllunio - caniatawyd

2454 **Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-**
A090064 Llain ger Awelon, Cefnllwyd – codi annedd a stordy. Mynegodd y Cyngor ei gefnogaeth i'r cais.

2455 **Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor ar ddydd Mawrth, 17 Mawrth 2009 am 7.00 pm yn Hen Ysgol Trefeurig**

2456 **Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:**
Ymyl y ffordd yn erydu ym Mhenbontrhydybeddau – Ceisio cymorth Elin Jones AC i berswadio Ceredigion i wneud y ffordd yn fwy diogel, ac os oes angen, i drefnu cyfarfod ar y safle.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.55 pm.